

Amserlen ddiwygiedig i'w hystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Protocol Gogledd Iwerddon

Tachwedd 2022

Ar 4 Hydref 2022, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 29.4(i), i wahodd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i ystyried Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Protocol Gogledd Iwerddon a chyflwyno adroddiad arno.

Yn unol â Rheol Sefydlog 29.4(ii), cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r pwyllgorau gyflwyno adroddiad i'r Senedd erbyn 7 Tachwedd 2022.



Amserlen ar gyfer ystyried:

Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid a Gedwir)

Ar 28 Hydref, cytunodd y Pwyllgor Busnes ar ddyddiad cau newydd i Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar gyfer cyflwyno adroddiad, sef 14 Tachwedd 2022.

Ar 8 Tachwedd, cytunodd y Pwyllgor Busnes unwaith eto ar ddyddiad cau newydd i Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gyflwyno adroddiad, sef 21 Tachwedd 2022.